CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r:	**Cabinet**
Dyddiad y Cyfarfod:	**21 Ionawr 2025**
Teitl:	**Adborth Craffu ar gynigion ynghylch Codi Tâl am Barcio ar y Stryd – Promenâd Aberystwyth**
Pwrpas yr adroddiad:	**Rhoi adborth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar 20 Ionawr 2025**

Cafodd cynigion yn ymwneud â chynigion a gyflwynwyd yn unol â chyflwyno tâl am barcio ar hyd y promenâd yn Aberystwyth eu cyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar 11/07/2024 a'r Cabinet ar 03/09/2024.

Penderfyniad y Cabinet, o dan Gofnod 57, oedd:

i. Cefnogi'r broses o gynnal ymgynghoriad ffurfiol o dan y Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996 (fel y'i diwygiwyd) mewn perthynas â'r cynigion a gyflwynwyd yn unol â chyflwyno tâl am barcio ar hyd y Promenâd yn Aberystwyth.
ii. Bod canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a'r Cabinet cyn gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â gweithredu'r cynnig.
iii. Nodi'r adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet, cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar yr argymhelliad. Ystyriwyd ymatebion a sylwadau i'r ymgynghoriad ffurfiol yn ystod y cam Rhybudd Cyhoeddus, gan y Pwyllgor ar 20 Ionawr 2025.

Argymhelliad
Cytunodd y Pwyllgor i nodi cynnwys yr ymgynghoriad cyhoeddus a chefnogi'r cynigion a gyflwynwyd.

Y Cynghorydd Marc Davies
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus